# YR ANGOR

**PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION**

*'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'*

CYF. 43. RHIF 5 HYDREF 2021 50c




*Priodas Dewi a Sophie*



*Mair ac Idris Roberts (rhieni Dewi)*




*Parch Gerallt Lloyd Evans, y cennad yn ei ddiweddglo*



*Dr John Williams gyda'r cyhoeddiadau*



*Capel yn ystod cyfnod clo*



*Y gynulleidfa ar Sul cyntaf ym Methel (Awst 29)*

Golygyddol

# *Pregethu ar ei newydd wedd*

## *– gan D. Ben Rees*

Un o freintiau a gawsom ni yn nhalgyrch *Yr Angor* y flwyddyn hon ydyw oedfa bob bore Sul ar gyfrwng *zoom*, a hoffwn dalu teyrnged i'r rhai sydd wedi llywio y cyfarfodydd yn dechnegol. ***Dr. John Williams*** yn gyntaf gan ei fod ef wedi bod yn hynod o ddiwyd yn cysylltu gyda ni, ugeiniau lawer, bob Sadwrn gyda manylion am y Sul a sut mae cael mynediad i'r cysegr newydd megis. Rhaid oedd defnyddiau rhifau i agor y drysau. Yn ail ***Mike Farnworth***, cynllunydd dysgwyr Cymraeg, ac arbenigwr pennaf ar y rhyngrwyd, *zoom* a phob peth arall sydd yn oblygedig â'r dechnoleg. Y mae ef wrth law o hyd, a diolch am hynny, pan mae'r gweddill ohonom ag angen arweiniad allan o'n penbleth. Yn drydydd ***Dr. Pat Williams***, sydd yn cael ei chynorthwyo gan ei merch Carys, ond weithiau gyda Lowri a'i phriod Phil, ac y mae y wraig wybodus hon mor garedig tuag atom pan y byddwn yn arwain yr oedfaon.

O fewn chwarter milltir i'r tri a enwyd, yn ardal Calderstones a Menlove Avenue, Allerton cawn breswylfod ***Siân Hartley*** ac y mae ganddi hithau fantais dda gan fod ei phriod Dennis fel Mike yn gryn arbenigwr ar y dechnoleg. Onibai am y rhain ni fyddai modd i ni a gafodd y fraint o arwain o Sul i Sul fod wedi gwneud hynny.

Y gweinidog a fu amlaf yn arwain yr oedfaon yw gweinidog newydd Gofalaeth y Gororau, y Parchedig Robert Parry a chawsom ganddo bob tro wasanaeth wedi ei drefnu'n ofalus a'r bregeth ran amlaf yn domyneiddio yr oedfa. Felly y dylai, y bregeth yw'r canolbwynt, yn y traddodiad Ymneilltuol, Protestanaidd. Ni fu problem o gwbl yn yr oedfaon a ddaeth i ni o'r Mans yn Coed-llai a llwyddodd Robert i ddenu nifer o selogion o'i ofalaeth gyntaf yn y Canoldir, a daeth rhai ohonynt fel Tom Owens o gylch Wolverhampton yn gyson atom ar y Sul a noson waith pan gynhaliwyd y Dosbarthiadau Beiblaidd. Bu pob un o'r rhain yn fendith mawr er mai o Bethel y deuai bron bob un o'r aelodau. Trueni hynny gan fod y dosbarthiadau hyn ar gyfer pob un ohonom, yn Cilgwri fel ag yn Didsbury.

Fi, ***D. Ben Rees*** oedd yn ddirprwy i'r Gweinidog a chefais fy nigoni yn feddyliol ac ysbrydol wrth fynd ati i baratoi, a chael Dr. Pat Williams i'w osod ef ar bapur, fel bod y cynhyrchydd yn meddu ar gopi rhag ofn i ddamwain ddigwydd, ac er mwyn cyflwyno cerddoriaeth yr emyn i'r gynulleidfa fedru cyd-ganu yn ei ystafelloedd. Llwyddais gyda'r *zoom* er bu'n rhaid imi un Sul gael fy nghipio gan Dr John 'Jehu' i gartref Mike i gynnal yr oedfa, ac nid oedd munud i'w golli. Diolch ein bod ni yn byw o fewn dri chwarter milltir i'n gilydd yn ardal Calderstones.

Byddwn ran amlaf yn gofyn ar fore Llun am enwau y rhai a fu yn yr oedfa ar y Sul, a sylweddolwn fod y gynulleidfa yn llawer mwy nag a geid pe baem yng nghapel Seion, Laird Street neu adeilad o gyffelyb maint. Deuai yn gyson chwech i wyth deg o wrandawyr, gan fod aml i beiriant yn gwasanaethu dau, weithiau dri o wrandawyr. Hyfryd oedd cael cwmni yr Athro Huw Rees o Ogledd Penfro. Ni chofiaf ei weld yn absennol, na chwaith David Williams, Karslake, un o blant Capel Heathfield Road ac un a wnaeth ddefnydd da o'r ddarpariaeth, yn arbennig y Cwis a gynhelid yn yr wythnos. Daeth fy ffrind bore oes, Gwynn F. Evans, cyn-Drysorydd Capel Harrow, i dderbyn budd o'r oedfaon, ac i werthfawrogi y negeseuon. Y mae'r cyfle a roddir i gael sgwrs yn yr Ystafelloedd ar diwedd yr oedfa wedi bod yn affaeliad, er i rai ohonom gael siom mai dim ond un arall oedd wedi aros yn Ystafell 3 neu 4 neu 5!! Arferai Ystafell 1 ddenu mwy ond ta waeth cawsom fudd ohono.

Cawsom hefyd gyfle i groesawu pedwar pregethwr arall i oedfaon *zoom*, tri o Gymru, a'r pedwerydd o Fanceinion. Gweinidog wedi ymddeol o gapel Penuel, y Bedyddwyr Bangor yw'r Parchedig Olaf Davies, Llandegfan. Oedfa hyfryd oedd hon er ychydig yn fyr i gymharu a'r oedfaon a gynhelir gan y Gweinidog, Eleri Edwards a minnau. Dim ond dau emyn a ddefnyddiodd! Sul ar ôl hynny cawsom ein harwain gan y Parchedig Gwenda Richards o Gaernarfon. Fel y disgwylid cawsom oedfa raenus yn meddu ar ysbrydolrwydd cadarn gan un a fu yng ngofal capel Seilo a chapeli yn Nyffryn Nantlle. Roeddwn yn ei chwmni hi ar *zoom* yn fuan ar ôl hynny yn Sasiwn y Gogledd a ddeuai yn rhithiol o Gapel Cricieth.

*Diolch am ddarpariaeth a drefnwyd gyda zoom*

Da oedd cael croesawu y Parchedig Aled Lewis Evans, Wrecsam, y gŵr a fu'n tafoli cystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Amgen 2021 o Gaerdydd. Hyfryd oedd ei bregeth ar deulu bach Bethania, yn arbennig Martha a Mair. Y casgliad a ddeuai rhywun iddo oedd fod angen dipyn bach o Martha ddiwyd a Mair dduwiol ar bob un ohonom heddiw hefyd.

Y pregethwr a ddaeth atom yn Awst oedd y Parchedig Eleri Edwards, un a fu'n ffyddlon i bob oedfa ar *zoom* fel gwrandawr, ac yn aml yn anfon neges o ddiolchgarwch am yr oedfa y bu hi ynddo. Gwelsom Eleri ar ei gorau, yn defnyddio ei gwybodaeth o lenyddiaeth Ffrainc, ac yn gyfoes ei themau. Cawsom oedfa ar redeg yr yrfa yng nghefndir y gemau Olympaidd yn Tokyo. Testun hynod o gyfoes. A chawsom newydd-deb mewn oedfa arall wrth ddangos fel y mae'r Beibl yn parchu anifeiliaid y maes ac adar y nefoedd, ac yn arbennig cŵn anwes. Perchenoga y pregethwr ddau sydd wedi cadw cwmni iddi drwy Covid-19.

Y mae'n bwysig o hyn allan nad ydym yn mynd i anghofio y pulpud newydd, *zoom*. Y mae darlithiau y Dysgwyr a'r Gymdeithas Lenyddol ym misoedd Medi, Hydref a Tachwedd ar *zoom*. Penderfynodd arweinwyr capel Bethel i brynu offer a fydd yn gwneud hi'n bosibl i gael o Medi (gobeithio) ymlaen oedfa *zoom* yn cael ei recordio yn fyw yn yr oedfa foreol. Y mae'r gweinidog i drefnu hyn erbyn yr Hydref fel bod ein cyfeillion ffyddlon ddim yn cael ein hamddifadu o'r cyfleusterau a fwynheir gan y gynulleidfa a ddaw ynghyd i gysegr Bethel, a fydd wrth gwrs yn gwisgo mwgwd. Pawb ond y pregethwr mae'n debyg! Ar waethaf Covid-19 yr ydym wedi elwa yn fawr yn y ddarpariaeth a drefnwyd gyda *zoom*.

Diolchwn am ei ddarganfyddiad ac am y bendithion a gawsom o Sul i Sul, ac o wythnos i wythnos. O leiaf mae'r hanes wedi ei groniclo am y cyfraniad gwerthfawr a ddaeth i'n bywydau ni yn 2021.

# CLODFORI DAU FONWYSYN
## y tad y Parchedig John Morris
## a'i fab Rhys G. Morris



***Darlun o Hen Gapel John Hughes, Pontrobert gan Rhys G. Morris, B.A.***

Erbyn hyn fe ŵyr *Yr Angor* am haelioni'r Parchedig John G. Morris i gyllid *Yr Angor* ac yn wir ar gyfer apeliadau ariannol eraill fel tuag at gyfrolau ar gyfer Cymry Lerpwl. Mae rheswm sylfaenol am hynny gan i'w fam gael ei magu yn Wavertree a bod hi a'i phriod wedi priodi yn y ddinas. Gwn fod nifer dda ohonom yn derbyn yn fisol Gylchlythyr Oriel Daniel, 11-13 Stryd Fawr, Llangefni lle ceir gweld gwaith yr arlunydd clodwiw Rhys G. Morris. Enillodd radd BA mewn Celfyddyd Gain ym Mhrifysgol Metropolitan Manceinion. Daeth yn ôl i'w gartref yn Llanddaniel Fab a dechrau ar ei yrfa trwy arlunio a fframio ar y Stryd Fawr yn Llangefni. Y mae yno ers 12 mlynedd, cryn gamp, a cheir croeso mawr yn y bwyty sydd ynghlwm â'r Oriel gan y ddau ohonynt. Gwelodd y ddau gyfaill y perygl mawr sydd yn ein hwynebu ni yn grefyddol y dyddiau hyn, sef cau capeli ac eglwysi hardd.

Mae brys ar yr artist i osod ar gof a chadw'r etifeddiaeth deg; ie, yr adeiladau hardd. Bellach cwblhaodd yr artist penigamp ddarluniau mewn pensel (llwyd a lliw) o nifer o Eglwysi Anglicanaidd a Chapeli Ymneilltuol Ynys Môn, ynys a fu'n gartref i gewri'r pulpud Cymraeg. Cwblhaodd Rhys ddarluniau Eglwys Llanfihangel Ysgeifiog (Gaerwen), Llanedwen, lle bu ei nain, Mrs Elizabeth Winifred Morris yn addoli; St Idan, Brynsiencyn, Llangristiolus, yna yn Llangefni, Capel hardd John Elias sef Moreia, Cana, Rhostrehwfa, Capel Bethesda, Cemaes lle bu'r Parchedig Emlyn Richards yn gweinidogaethu ar hyd ei yrfa, Capel Mawr, Amlwch lle bu D. Cwyfan Hughes a Richard Williams yn cyfleu'r newyddion da. Yng Nghapel Mawr yr ordeiniwyd ei dad yn Weinidog yn 1980 cyn cychwyn ar ei weinidogaeth yn Sir Drefaldwyn. Mae'r ddau wedi bod yn ofalus o'r Sir honno ac yn rhifyn cyfredol *Etifeddiaeth* ceir darlun o Hen Gapel John Hughes, a gwelsom yn *Yr Angor* bulpud y gwron hwnnw, ac yn awr cawn gofio Ann Griffiths. Nid anghofiodd Lerpwl. Cawn ddarlun o Gapel hardd Princes Road, a braint fu derbyn y comisiwn i ysgrifennu ar y gwroniaid sydd yn gysylltiedig â'r blychau ennaint hyn. Melys moes mwy.

***D. Ben Rees***

---

# 'DI CYMRU DDIM AR WERTH'

Beth ddigwyddodd i'r hen bentre',
Neb yn byw 'ma' ger y lli.
Ond ymwelwyr ar ei gwyliau,
Mewn tai haf, 'AirB&B'

Y Capel, siop, a'r dafarn,
A diflannodd fesul un.
Ar blant ar ysgol fechan,
Yn ddistaw nawr ei llun.




Mae'r cymunedau hyn yn sylfaen,
I ddiwylliant ac iaith, ein gwlad,
Ond maent wedi troi'n barc chwarae,
Er mwyn i'r estron cael mwynhad.

Beth allwn ni gwneud fel Cymru?
Yr un cwestiwn tro ar ôl tro.
Ond maen frwydr fydd rhaid ei hymladd,
I warchod ein gwlad a'n bro.

Wel! Mae Cymru wedi deffro,
O'r diwedd, mae hyn yn faith.
I sicrhau dyfodol Gwalia,
Gwnewch chi ymuno ar y daith.

Fel minnau mi gewch floeddio,
Ai gwneud, gyda'ch holl nerth,
Gan adael iddynt wybod
'Di Cymru Ddim Ar Werth'.

*David Williams (Karslake)*

Newyddion o

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Diolch *Caneuon Ffydd* ar hyd cyfnod y coronafeirws. Darllener y deyrnged:

*Cynhaeaf y Caneuon rown i wlad,*
*Rhowch lyfr â gobeithion*
*Y daw Duw, drwy'r Gair a'r dôn,*
*Eilwaith i hawlio'i chalon.*

Dyma englyn o fewn clawr 'copi diolch' roddwyd i olygyddion *Caneuon Ffydd* ar ôl cyflawni eu gwaith enfawr. Daeth y gwaith hwnnw yn fendith ac ysbrydoliaeth i ni heddiw. Deuais ar draws hon yn y llyfr *'Am yn ail'* a ddaeth o'r wasg eleni o waith John Gwilym Jones, Abergele a Tudur Dylan Jones o Gaerfyrddin.

Dyma gychwyn newydd i ninnau ar ddiwedd tymor heriol a chaled a chael unwaith eto i gyd-addoli ym Methel ar Sul olaf Awst. Diolchwn i'r aelodau hynny a fu yn gofalu am yr adeiladau drwy y cyfnod clo, ac am y ddarpariaeth *zoom* a gafwyd yn y cyfamser gan y Parchedig Ddr. D.Ben Rees, Parch. Robert Parry, Parch. Eleri Edwards, Dr. Pat Williams a Carys, Dr. John Williams, Mike Farnworth a Sian Hartley.

Ein dymuniadau gorau i Mr. John Lyons yn ei gartref newydd yn Rhydwyn, Môn. Aiff yn ôl i'w gynefin. Diolch John am yr holl gyd-weithio hapus rhwng Bethel a Bethania a hynny gyda gwên a brwdfrydedd bob amser.

Anfonwn ein cofion annwyl at yr aelodau hynny sydd yn teimlo'n fregus ar hyn o bryd, rhai wedi bod yn yr ysbyty ac wedi cael dod adref erbyn hyn.

'Awn ymlaen yn nerth y Nef' yw ein gobaith.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Lerpwl

Edrychwn ymlaen i'r ddau amgylchiad pryd y cawn gyfle i ddymuno'n dda i'n blaenor John P. Lyons sydd ym mis Medi yn ymadael â'r Glannau ar ôl 55 o flynyddoedd. Symudodd ef a'i ddiweddar briod Marian a'r teulu o Gaernarfon atom yn 1966 a daeth pob un ohonynt i gefnogi bywyd Cymraeg a chrefyddol Gogledd Lerpwl. Yn 1972 gwnaed ef yn flaenor yn eglwys Stanley Road ac yr oedd yn un o'r rhai a ofalodd am yr uniad yn 1993 rhwng Capel Waterloo a Chapel Stanley Road i greu eglwys Bethania a derbyn gweinidogaeth y Parchedig Ddr. D. Ben Rees a fu'n affaeliad. Onibai amdano ef ni fyddem wedi cael trefniant gyda Eglwys Crist mor hawdd ag y bu i'n cartref newydd. Dymunwn yn dda i Mr. John P. Lyons yn ei gartref newydd yn Rhydwyn, Ynys Môn, ond balch ydym y bydd yn dal yn flaenor yn ein heglwys ac yn cydweithio gyda'n bugail, y Parchedig Robert Parry ar ddechrau ei gyfnod ef fel ein bugail.

## Eglwys Seion Laird Street, Penbedw

Yr ydym fel Eglwys Gymraeg yn anfon ein cofion atoch fel darllenwyr yr *Angor*, a'ch bod i gyd yn cadw yn ddiogel.

Gan fod llawer o'r rheolau Covid wedi diflannu a ninnau yn cael mwy o ryddid mae gennym gymaint i edrych ymlaen ato yn y dyfodol. Yr hyn yr ydym ni yn Seion yn edrych ymlaen ato yn eiddgar iawn yw ail agor y capel a chael cydaddoli unwaith eto. Cyrhaeddodd y dydd a chawsom ar Sul, Awst 29 yn y capel fwynhau gwasanaeth arbennig gyda'r Parchedig Gerallt Lloyd Evans yn pregethu. Mae ganddo ddawn fawr a gwelwyd hynny, yn wir gelwir hi yn ddawn Môn.

Mae llawer o reolau i'w cadw er mwyn sicrhau diogelwch pob aelod ond mae'n bleser mawr gweld a chyfarch ein cydaelodau unwaith eto. Y tro olaf oeddym yn y capel oedd Mawrth 15, 2020 gydar Parchedig Victor Edwards yn pregethu.

Edrychwn ymlaen yn ffyddiog i'r dyfodol a'r digwyddiad mawr nesaf fydd gwasanaeth ordeinio ein gweinidog ar Medi 18 yn Seion.

Yr oeddem i gyd fel aelodau yn falch iawn o weld Mair Rees Jones, ein harweinydd gweithredol, yn ei lle arferol yn y sêt fawr ar 29 Awst ac wedi gwella ar ôl y ddamwain a gafodd yn ei thŷ. Yr ydym i gyd yn ddiolchgar i Mair am yr holl waith y mae yn ei gyflawni ar ran y capel. O na fyddai rhagor o gredinwyr yn ei efelychu yn ei diolchgarwch cyson i bregethwyr y gair.

CYMRAEG

Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484 aerontynycefn@gmail.com*

## *GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*

- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

- **Rhifyn Tachwedd 2021** erbyn bore Gwener, 1 Hydref 2021 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com

- **Rhifyn Rhagfyr 2021/Ionawr 2022** – erbyn bore Llun, 1 Tachwedd, 2021 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd pnawn Llun. Hwn yn Rhifyn y Nadolig. ***Os hoffech anfon cyfarchion y Nadolig gwnewch hynny yn brydlon.***

- **Rhifyn Chwefror 2022 –** erbyn bore Llun, 3 Ionawr 2022, gan yr aiff y cyfan am hanner dydd i Benllyn i'w osod.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).

- **Croeso – i'ch llythyron, adolygiadau etc, ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/10/2021.**

# DYFODOL CYMRY LLOEGR

Un o nodweddion gwleidyddol amlwg y blynyddoedd diwethaf yw trafodaeth am ddyfodol y Deyrnas Gyfunol a'r posibiliad y bydd yn chwalu a Chymru a Lloegr yn mynd eu ffordd eu hunain. Mae polau piniwn yn awgrymu y gallai traean a mwy o boblogaeth Cymru bleidleisio dros annibyniaeth pe bai refferendwm yn cael ei gynnal yfory. Pe bai'r Alban yn cael ei hannibyniaeth yn gyntaf, gallai'r ffigwr hwnnw godi hyd yn oed yn uwch, a phwy a ŵyr na fyddai pleidlais 'Ie' mewn refferendwm Cymreig mewn amgylchiadau o'r fath.

Ond ychydig o sôn a fu am dynged un grŵp o Gymry pe bai hyn yn digwydd, sef y Cymry sy'n byw yn Lloegr, neu a gafodd eu magu yno. A fyddai'r Cymry hyn yn dod yn ddinasyddion Lloegr, ynteu ddinasyddion Cymru, neu a fyddai ganddynt hawl i ddinasyddiaeth y ddwy wlad? A beth fyddai tynged y diwylliant Cymreig yn Lloegr ar ôl annibyniaeth? Wedi'r cwbl, bu cymuned Gymraeg yn Llundain ers i Harri Tudur gipio'r Goron yn 1485, ac mae hanes Cymry Lerpwl a Manceinion yn mynd yn ôl sawl canrif hefyd. Ac er bod cymunedau Cymraeg y dinasoedd hyn yn llai o dipyn nag y buont, bodolant o hyd ac mae eu dyfodol yn haeddu ystyriaeth ddwys.

Mae'r mater hwn yn effeithio ar y rhan fwyaf ohonom. Mae'n effeithio ar bobl fel fi, aelodau o'r ail genhedlaeth Gymreig a faged gan rieni o Gymru yn Lloegr. Ac mae'n effeithio hefyd ar Gymry a aned yng Nghymru ond sydd wedi symud i Loegr i fyw. Pe bai Cymru'n dod yn annibynnol, byddai Lloegr yn annibynnol hefyd, ac felly byddai'r gymuned Gymreig yn Lloegr mewn cyd-destun tra gwahanol i'r un presennol.

Gellid ystyried Cymry sy'n byw yn Lloegr heddiw fel aelodau o leiafrif cenedlaethol, gan eu bod yn byw oddi mewn i wladwriaeth (y Deyrnas Gyfunol) mae Cymru'n rhan ohoni. Ond wedi annibyniaeth, ni fydd Cymru'n rhan o'r wladwriaeth honno a bydd statws y Cymry yn Lloegr yn newid.

Nid 'Prydeinwyr' fyddant, gan y bydd y syniad o Brydain wedi dod i ben. Bydd eu statws yn nes efallai at un y Gwyddelod yn Lloegr. I ryw raddau felly, bydd y Cymry yn Lloegr yn dod yn fath o leiafrif ethnig. Bydd ganddynt ddinasyddiaeth Seisnig, ond bydd eu diwylliant a'u treftadaeth yn tarddu o wlad arall. Gellid dadlau y bu hyn yn wir am yr ail a'r drydedd genhedlaeth Gymreig yn ninasoedd Lloegr erioed, gan eu bod yn 'Saeson' ar un olwg (yn dod o Loegr yn gynhwynol) ac yn 'Gymry' ar olwg arall (yn dod o gefndiroedd Cymreig, ac yn aml yn siarad Cymraeg hefyd). Ond gydag annibyniaeth, daw'r deublygrwydd Cymreig-Seisnig hwn yn fwy amlwg yn achos aelodau o'r genhedlaeth gyntaf yn ogystal.

Mae'n debyg hefyd y bydd agweddau yng Nghymru tuag at y gymuned Gymreig yn Lloegr yn newid. Mae cenedlaetholdeb Cymreig modern yn pwysleisio neges gyfoes iawn, sef fod pawb sy'n byw yng Nghymru yn Gymry. Cenadwri hanfodol yw hon gan fod angen croesawu Saeson ac aelodau o bob cenedl sy'n symud i Gymru i fyw. Ond ymhlyg yn y dyfaliad mai pobl Cymru yw'r Cymry ceir neges lai dymunol efallai, sef nad yw Cymry sy'n byw y tu allan i Gymru'n 'Gymry go-iawn'.

Yn ddiweddar, bu rhai'n ymosod ar Gymry sy'n byw y tu allan i Gymru fel 'Saeson' gan honni, er enghraifft, nad oes ganddynt hawl i sefyll etholiad yng Nghymru neu i fynegi barn am Gymru. Bu'r ymosodiadau gwaethaf ar aelodau o'r ail genhedlaeth ac yn groes i bob tegwch a chwarae teg.

Ac weithiau gall newidiadau digon difalais gael yr effaith o danseilio Cymreictod yn Lloegr hefyd. Enghraifft o hyn fyddai'r penderfyniad yn 2019 i ail-enwi Gorsedd Beirdd Ynys Prydain yn Orsedd Cymru. Mae'n wir fod 95% o aelodau'r Orsedd yn byw yng Nghymru, ond yn y Llundain Gymreig ar Fryn y Briallu y'i sefydlwyd ac mae dileu'r term 'Ynys Prydain' (sydd yn gyfeiriad amlwg at dreftadaeth Gymraeg a Brythoneg Lloegr) mewn modd sy'n diystyru cyfraniad Cymry Lloegr yn gam yn ôl.

Am sawl rheswm felly, mae llawer i gnoi cil arno. Gall Prydain fod ar groesffordd, a gyda'r berthynas rhwng Cymru a Lloegr yn newid yn gyson bydd angen ailddehongli natur a threftadaeth y bywyd Cymraeg yn Lloegr. Pa ddyfodol all fod i'r bywyd Cymreig yn Lloegr yn yr unfed ganrif ar hugain? Dros y misoedd nesaf, mi fydda i'n archwilio rhai o'r themâu a'r cwestiynau hyn yn *Yr Angor.*

***SIMON BROOKS***

## CYFARFODYDD ZOOM

***o dan nawdd Dosbarth Dysgu Cymraeg Canolfan y Cymry a Chymdeithas Lenyddol Capel Bethel, Lerpwl.***

**Darlith mis Medi ar Nos Lun, Medi 13 am 7.30 o'r gloch pryd y ceir darlith ar WALDO WILLIAMS a fu farw 50 mlynedd i eleni.**

**Traddodir y ddarlith gan yr Athro Emeritws E. Wyn James o Brifysgol Caerdydd.**

**Llywydd: Dr. D. Ben Rees**

— — — —

**Darlith Hydref ar Nos Lun 18 am 7.30 o'r gloch ar**

**Y GYMUNED DDU YN LERPWL**

**gan y Parchedig Athro D. Ben Rees.**

**Llywydd: Parchedig Robert Parry**

**Cyfarfod Lansio Cyfrol Saesneg**

***The Welsh in Liverpool: A Remarkable Story***

**ar Nos Lun 11 Hydref am 7-30**

**yn adeiladau Bethel, Auckland Road/Heathfield Road, Lerpwl 15**

# CAPEL JERUSALEM BETHESDA



Sefydlwyd ac adeiladwyd Capel Methodistaidd Calfinaidd Cymru Jerusalem ym 1842 i ddyluniad T. Evans o Fangor. Cafodd ei ailfodelu yn ddiweddarach, rhwng 1872-5, gan Richard Davies o Gaernarfon yn creu capel a allai eistedd 980 o addolwyr yn gyffyrddus. Dywedir bod y siâp yn debyg i amffitheatr gyda nenfwd cromennog neu neuadd ddarlithio coleg, gyda seddi wedi'u rhuo ar y llawr gwaelod o dan yr oriel ac yn yr oriel ei hun. Yn y canol mae seddi crwm, a sedd hanner cylch a oedd, pan y sefydlwd, yn gartref i gôr a cherddorfa. Ar y pryd, roedd yn newydd-deb i gapel Methodistaidd gael côr a cherddorfa sefydledig. Mae pulpud mawr fahogani caboledig gyda rheiliau pres a grisiau i'r naill ochr o dan bibellau trawiadol yr organ a brynwyd o Neuadd y Dref Huddersfield ym 1900. Cynhaliwyd gyngerdd agoriadol yr organ ar 26 Rhagfyr 1901. Disgrifir y capel yng nghyfrol 'Gwynedd' yng nghyfres 'Adeiladau Cymru' fel "mwy o neuadd y dref na chapel". Cost yr adeilad gwreiddiol oedd £3,400, a'r ailadeiladu, £1,778.

Yn 1899 roedd y capel yn orlawn ar gyfer angladd y Parch Thomas Roberts, gweinidog capeli Jerusalem a Tyn y Maes ers 1867. Bu farw'n sydyn mewn siop ym Mangor. Gofynnwyd am ganiatâd arbennig i'w gladdu yn y cae o flaen y capel ond gwrthodwyd hyn, a chladdwyd ef ym mynwent gyfagos Eglwys Glanogwen.

Wrth siarad am du allan y capel ni allwn osgoi'r Gofeb i'r Streic Fawr sydd i'w gweld yno. Gosodwyd y maen, o lechen las, yn yr ardd yn 2000, canmlwyddiant dechrau'r Streic Fawr, a ddechreuodd ar 22 Tachwedd 1900 ac a barhaodd am dair blynedd. Codwyd yr heneb gan Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol (TGWU), yr oedd Undeb y Chwarelwyr wedi uno âr TGWU yn y 1950au, ac a ddaeth, yn ei dro, yn rhan o undeb UNITE yn ddiweddarach.

Ar ddiwedd y 19eg ganrif, Chwarel Penrhyn, (a oedd yn eiddo i George Sholto Gordon Douglas-Pennant, ail 'Farwn Penrhyn' o Llandygai) oedd y chwarel lechi fwyaf yn y byd ac roedd ganddi weithlu o 2,800 o ddynion.

Pan gymerodd George Sholto reolaeth ar y chwarel aeth ati i ddiwygio ei rheolaeth i gynyddu ei elw i'r eithaf a dechreuodd trwy chwalu pwyllgor y chwarelwyr etholedig a oedd wedi chwarae rhan wrth weinyddu'r chwarel o dan berchnogaeth ei dad.

Roedd yr amodau yn y chwarel yn beryglus ac yn hynod o galed, a'r gwobrau i'r chwarelwyr yn brin. Yn dilyn nifer o anghydfodau, ffurfiwyd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru ym 1874 a bu streic 11 mis ym 1896 yn aflwyddiannus wrth geisio sicrhau isafswm cyflog.

Ym 1900, gwaharddwyd gweithgareddau undeb yn y chwarel a sbardunodd gyfres o ddigwyddiadau a arweiniodd at yr anghydfod diwydiannol hiraf yn hanes Prydain. Tynnodd yr holl weithwyr eu llafur yn ôl a chaewyd y chwarel tan fis Mehefin 1901 pan ddychwelodd 242 o ddynion i'r gwaith, ynghyd â nifer o recriwtiaid newydd. Yn ôl rhan fwyaf o pobol Bethesda "Bradwyr" oedd y rhain ac nid oedd y bobl leol eisiau cymdeithasu â nhw. Er enghraifft yng Nghapel Shiloh, Tregarth, (*sef pentre' cyfagos a capel a fu Edward 'Tegla' Davies yn weinidog arni tair gwaith)* fe wnaeth y gynulleidfa gyfan sefyll i fyny un nos Sul yn ystod y streic a cherdded allan o'r Capel yn dawel pan gerddodd dau 'fradwr' i mewn.

Ym mis Ebrill 1903 adroddodd ficer Glanogwen ar gyflwr Bethesda i'r Arglwydd Penrhyn, wrth iddo baratoi ar gyfer dadl am y streic yn Nhŷ'r Cyffredin. Roedd Bethesda wedi dioddef yn fawr yn ystod yr anghydfod, ond fel tystiolaeth nad oedd y gymuned mewn caledi ariannol cyfeiriodd y ficer (ymhlith pethau eraill) at o gwmpas £3,000 a godwyd ar gyfer organ a neuadd festri Capel Jerusalem. Roedd yn "ysgrifennu'n gyfrinachol", ac nid oedd am i'w enw gael ei grybwyll gan ei fod yn dymuno byw ymlaen ym Methesda.



Er gwaethaf y caledi enbyd, fe ddaliodd y streicwyr allan am dair blynedd cyn dychwelyd i'r chwarel ar ôl i Ffederasiwn Cyffredinol yr Undebau Llafur roi'r gorau i dalu tâl streic i'r dynion. Yn ystod y cyfnod hwn roedd llawer wedi gadael yr ardal i chwilio am waith yn rhywle arall ac roedd y gymuned i deimlo effeithiau ymrannol y gwrthdaro am genedlaethau.




Mae arysgrif ar y llechen gan y Prifardd Ieuan Wyn, sy'n darllen:

*Yn dlawd ac mewn dyledion - aeth ystyr*
*I Fethesda'r galon,*
*A byw yw co'r henfro hon*
*O'r helynt a'r treialon.*

Nid y streic yn unig a achosodd helynt a threialon i gapel Jerusalem. Ym 1939 ymddiswyddodd gweinidog y capel, y Parch T Arthur Jones, mewn protest yn erbyn gwrthodiad y 'blaenoriaid' i ganiatáu i faciwîs amser rhyfel gael eu haddysgu yn yr ystafelloedd. Roedd llawer o blant wedi cael eu hanfon i Fethesda er diogelwch o ardaloedd trefol Lloegr lle'r oedd disgwyl cyrchoedd awyr. Ni allai ysgolion lleol ddarparu ar gyfer y mewnlifiad ond gwrthododd y blaenoriaid ' yn Jerusalem dair apêl yn erbyn eu penderfyniad. Dywedodd Mr Jones wrth awdurdodau'r eglwys yn ei lythyr ymddiswyddo ei fod yn ystyried bod y gwrthodiad yn "annheilwng o'r eglwys Gristnogol a'i Sylfaenydd". Un ystyr i'r enw Bethesda yw *'tŷ trugaredd neu dŷ caredigrwydd'* ond ni ddangosodd blaenoriaid Jerusalem, Bethesda fawr o hynny.

***David Williams (Karslake).***




# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors® Est 1905

# WALDO WILLIAMS


## (1904-1971)

### gan Dr. Pat Williams

Enw llawn Waldo, fel y cyfeirir ato gan amlaf, yw Waldo Goronwy Williams, ar ôl yr athronydd a'r bardd Americanaidd Ralph Waldo Emerson a'r bardd Cymraeg Goronwy Owen, fel pe bai ei rieni wedi darogan y byddai yntau hefyd yn tyfu i fod yn fardd, yn athronydd ac yn gyfrinydd.

Er gwaethaf ei enwogrwydd fel bardd, dwy gyfrol o'i waith yn unig a gyhoeddwyd. Y gyntaf yw *Cerddi'r Plant*, sef detholiad o gerddi a gyfansoddodd ar y cyd â'i gyfaill, y prifardd E. Llwyd Williams. Ymddangosodd y gyfrol hon gyntaf yn 1936 ond yn 2019 cafwyd argraffiad newydd gyda rhagymadrodd gan Mererid Hopwood. Mae hwn yn cynnwys 16 o gerddi gan Waldo, gan ychwanegu 'Byd yr Aderyn Bach' nad oedd yn y gyfrol wreiddiol; cerdd yw hi sy'n pwysleisio rhyddid a diniweidrwydd yr adar bach yn y gwrychoedd, sy'n bodloni ar ychydig.

Cyhoeddwyd ei ail gyfrol *Dail Pren* yn 1956 a enillodd iddo wobr o £100 gan Gyngor y Celfyddydau, ond ni chadwodd Waldo yr arian hwn; yn hytrach fe'i rhoddodd i UNESCO i'w wario ar hybu addysg i blant dros y byd i gyd. Ail-gyhoeddwyd y gyfrol yn 2010 ac yn yr hysbyseb gan gwales.com (llyfrau o Gymru ar-lein) dywedir bod hon yn 'un o gyfrolau barddoniaeth pwysicaf yr ugeinfed ganrif â'i dylanwad yn para hyd heddiw.' Daeth y teitl o Lyfr y Datguddaid (22:2) lle y dywedir bod dail pren y bywyd yn iachâd i'r cenhedloedd.






***Waldo Williams***


Y tair cerdd mwyaf adnabyddus o eiddo Waldo yw 'Cofio', 'Y Tangnefeddwyr' a 'Preseli'. Yr hyn sydd gan y tair cerdd hyn yn gyffredin yw edmygedd y bardd o'r hen ddull o fyw pan oedd y bardd yn cofio pobl yn cyd-dynnu'n heddychlon â'i gilydd. Ysbrydolwyd ef i gyfansoddi 'Cofio' pan welodd yr haul yn machlud ar fferm ei gyfaill Willie Jenkins, Hoplas, Rhoscrowther, ger Penfro; 'Y Tangnefeddwyr' ar ôl i Abertawe gael ei fomio yn ystod yr Ail Ryfel Byd; a 'Preseli' fel protest yn erbyn cynlluniau Swyddfa'r Rhyfel i ddefnyddio'r lle ar gyfer ymarfer milwrol. Serch hynny, 'Mewn Dau Gau' yw'r gerdd a ystyrir fel ei gyfansoddiad gorau. Yn y tri phennill cyntaf mae'r bardd yn disgrifio'r wlad o'i amgylch yn y gwanwyn ac yn yr hydref gan ddangos fel y mae hyn yn esgor ar brofiadau o hiraeth ac o obaith ynddo. Yna yn y tri phennill olaf mae'n symud o'i brofiadau ei hun a datgan ei gred y daw'r 'hollfyd' i dawelwch y ddau gae a thrwy eu hamgylchfyd a'u hetifeddiaeth hynafol i adnabod Duw.

Yn 2004 cyhoeddwyd cyfrol bwrdd coffi i ddathlu canmlwyddiant Waldo: *Môr Goleuni / Tir Tywyll*, sy'n cynnwys detholiad o ddyfyniadau o'i farddoniaeth a'i ryddiaith ynghyd â lluniau gan y ffotograffydd Aled Rhys Hughes. Meddai golygydd y gyfrol, Damian Walford Davies:

> Llwydda'r delweddau i ddiriaethu cysyniadau creiddiol Waldo – goleuni, tywyllwch, ffenestr, cwmwl, bwlch, gwreiddyn, pren – mewn modd sydd hefyd yn cyfleu eu pŵer trosiadol.

Mae Waldo wedi ei goffáu hefyd gan flodeugerdd o gerddi a gyfansoddwyd fel teyrnged iddo gan 39 o feirdd uchel eu bri, cyfrol a olygwyd gan Eirwyn George. Cyfeirir yma at unigrwydd a dewrder Waldo fel gwrthryfelwr addfwyn, ei dristwch oesol o golli ei briod mor gynnar yn ei fywyd, ei genedlaetholdeb pybyr ond yn bennaf oll cofir amdano fel breuddwydiwr a thangnefeddwr.

Ceir tri eironi ym mywyd Waldo: ef oedd y plentyn canol o bump ond, fel y dywedodd Alan Llwyd, cherddodd yr un ffordd ganol erioed; gadawodd ei swydd fel prifathro Ysgol Casmael am fod ei safiad ar heddychiaeth mewn gwrthdrawiad ag agwedd yr awdurdodau, ond yn 2019 agorwyd ysgol newydd yn Hwlffordd a chael ei henwi ar ei ôl; fe'i magwyd ar aelwyd uniaith Saesneg yn ei ddyddiau cynnar ond daeth yn un o lenorion pwysicaf yr iaith Gymraeg.




***Cofeb Waldo ym Mynachlog-ddu***

# Cyfrol Syfrdanol yn y Gymraeg

**SIMON BROOKS,**
**HANES CYMRU: LLEIAFRIFOEDD ETHNIG YN Y GWAREIDDIAD CYMRAEG**
**Caerdydd,**
**Gwasg Prifysgol Cymru 2021**
**tt. 521.**
**Clawr meddal**
**Pris £19.99**

Cymro alltud yw Simon Brooks, yn wreiddiol, un a anwyd yn Isleworth, ger Hounslow yn Llunain a'i fagu yno ac yn Walton yn ymyl Kingston. Cefais y fraint o adnabod teulu ei dad ym Mhenrhiwceibr, ac y mae gennyf lu o atgofion amdanynt. Ei brofiadau cynnar yn Llundain a'r cylch sydd yn bennaf gyfrifol am ei frwdfrydedd dros y Gymraeg, ac am ei gyfraniad i wahanol sefydliadau, yn arbennig fel un o ysgolheigion disgleiriaf sydd yn gweithredu heddiw ym Mhrifysgol Cymru. Nid oedd ei brofiadau yn Llundain yn rhai i ymfalchïo ynddynt gan iddo deimlo cryn lawer o waradwydd, hyn yn oed dicter a chywilydd yn ystod ei blentyndod oherwydd ei gefndir ethnig. Profiad i aml un o Gymry alltud.

Tradodaeth a geir yn y gyfrol odidog hon ar y Cymry Cymraeg amlethnig, neu'r 'gwareiddiad Cymraeg' fel y'i gelwir ganddo. Dangosir a dymunir ddisgrifio yr hyn a eilw Simon yn 'amlddiwylliannedd Gymraeg' o ran safbwynt hanesyddol a theoretig. Y gyfrol hon yw'r olaf o dri llyfr. Y gyntaf a olygwyd gan ei gyfaill Richard Glyn Roberts oedd ***Pa beth yr aethoch allan i'w achub'***. Yr ail ***Pam na fu Cymru***, sef ymdriniaeth â gwleidyddiaeth a chenedl, a dyma'r drydedd a'i phwnc yn syml ydyw ***Pwy yw'r Cymry.*** Hon yw'r gyfrol syfrdanol, cwbl unigryw, sydd yn dangos gyda bron bob llyfr ac ymdriniaeth a welodd olau dydd oddi ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Y mae pawb yn mynd i elwa o ddarllen cyfrol mor ddiddorol ei deunydd a'u gwead.

Cefais foddhad mawr yn yr ymdriniaeth ar gyfraniad yr Iddewon o fewn cenedl y Cymry, y rhestr hir ohonynt, fel Käthe Bosse (Kate Bosse-Griffiths wedyn) (1910-98) a wnaeth gyfraniad aruthrol i'r diwylliant Cymraeg. Yna ei ffrind, Rosemarie Wolff, hithau'n Almaenes o dras Iddewig, ac a briododd gyda'r bardd-bregethwr Dr. Pennar Davies. Cofir am yr artistiaid Iddewig, Josef Herman yn Ystradgynlais, Heinz Koppel yn Dowlais; Karel Lek (a fu'n ddylanwad ar Rhys G. Morris, Llanddaniel Fab,) yn Biwmares. Ond i ni y bumed bennod fydd yn ein diddori, yn arbennig yr adran 'Y Cymry fel lleiafrif ethnig yn Lloegr: lleiafrif heb ei gydnabod' tudalennau 168-188. Dengys yr awdur edmygedd o Gymru Llundain a Chymru Lerpwl ac yn wir Cymru alltud ar hyd a lled Lloegr. Y mae ei ymdriniaeth â ni yn Lerpwl a'r cyffiniau yn deg a chytbwys, a gwna ddefnydd da o'r cyfrolau a gyhoeddwyd am ein hanes. Cyfeiria nid yn unig am Lerpwl ond am y cymunedau y tu allan i'r ddinas fel Ashton-in-Makerfield a Widnes. Dywed y gwir:

*'I Gymry heddiw, lleiafrif anghofiedig yw pobl y cymunedau Cymraeg dosbarth gweithiol hyn. I haneswyr amlddiwylliannedd yn Lloegr, nid ydynt yn bodoli '*




***Simon Brooks***

Caiff Saunders Lewis sylw priodol, fel llenor sy'n meddwl amdano ei hun 'fel aelod o leiafrif ethnig'. Mae'n debyg mae yn yr ymdriniaeth ar y bobl lengar o Lerpwl y mae angen atgyfnerthu yr ymdriniaeth. Nid yw yn rhoi llawer o sylw iddynt ar wahan i Emrys Roberts a Iorwerth Jones. Ond fe gynhyrchodd Lerpwl ei llenorion ei hun, ymhlith y beirdd Elis Aethwy, llenyddiaeth i'r ifanc Gweneth Lilli, dehonglydd Carneddog, Namora Williams, nofelydd a llenor y Fedal Ryddiaith, Harri Williams a'r bardd cynganeddol ein dyddiau ni, Ellis Roberts o S4C. Gallwn enwi rhagor. Y mae yn rhy garedig tuag atom ar brydiau er ei fod yn awgrymu y medrai ein tadau fod wedi bod yn fwy mentrus i adael ar ôl strwythur cryfach. Gadawyd adeiladau di-ri i'w cynnal, Clwb y Cymry yn Parliament Street, a phapurau; ond yr hyn a ddylent fod wedi ei adael ar ôl oedd Ysgol Gymraeg, yn arbennig gan iddynt drafod hynny mor bell yn ôl a 1907.

Rhaid pwysleisio y ceir penodau am Gymry du, un ohonynt o Lerpwl, Freddie Grant, y Sipsiwn Cymreig, Gwyddelod o fewn Cymru, ac yna y Cymry fel lleiafrif ethnig yn Lloegr sy'n haeddu llawer mwy o gydnabyddiaeth. Rhydd Simon Brooks y gydnabyddiaeth honno gan ein atgoffa mai yn Lerpwl y gwelodd wareiddiad Cymraeg ei oes aur. Dyna'r gwir, gwir yn erbyn yr haneswyr Cymraeg a fu hyd yn hyn yn ddigon di-ddweud amdanom. Darfu hynny ar ôl ymddangosiad y *magnum opus* hwn sydd yn gyforiog o wybodaeth i atgyfnerthu ein safbwynt fel Cymry a gafodd enedigaeth fraint i'w gwarchod.

***D. Ben Rees***



CYFRES NEWYDD


# MANCEINION DDOE A HEDDIW

## CAPEL PENDLETON

**gan y Parchedig Eleri Edwards** ***(Rhan 1)***

**DECHREUADAU**

Mae enw Pendleton yn gyfarwydd iawn er bod yr adeilad wedi gorfod cau yn y chwedegau o'r ganrif ddiwethaf oherwydd ail drefnu ffyrdd yn y ddinas. Gadawodd y capel argraff ddwfn ar bawb oedd yn ymwneud ag ef. Ond i sôn am ychydig o'r hanes: yn 1853 adeiladwyd capel bach yn Uxbridge Street, Salford fodd bynnag, yn fuan gwelwyd ei fod yn rhy fach a symudwyd i Rigby Street ac adeiladwyd capel arall. Roedd sôn hefyd am adeilad yn St Stephen's Street. Mewn amser symudodd llawer o'r addolwyr i ffwrdd o'r ardal i fyw ac yna penderfynwyd adeiladu capel Pendleton yn Broad Street, capel mawreddog, hardd fel y gwelir yn y darlun uchod..



***Capel Broad Street, Pendleton***


Yn 1878 Gosododd Mr Frimston garreg goffa a chafwyd oedfa arbennig gyda'r emyn 'Wele gadarn sylfaen Seion, ar y graig dragwyddol gref, pan falurio'r bryniau mawrion saif preswylfa Brenin nef; ar yr amryw wych dinasoedd mawr ragora Seion gu; Duw ei hun a adeiladodd yno'i deg frenhinol dŷ.' Yn anffodus yn yr un flwyddyn bu farw Mr Frimston yn ddisymwth iawn , dyn a oedd, yn ôl y llythyr o gydymdeimlad a anfonwyd gan y pwyllgor at y teulu, yn wir gyfaill i'r Achos ac yn meddu ar *'Christian zeal with which he applied himself to the welfare of the common Cause of Christian Progress'*. Profedigaeth fawr ac yn siom mae'n amlwg oedd colli un mor ymroddedig ond fe fu rhaid llenwi'r bwlch yn y pwyllgor ac ym mis Mawrth 1879 fe apwyntiwyd Mr Hugh Rowland. Yn y flwyddyn hon hefyd cafodd y tir y 'Freehold' yn Pendleton ac roedd yn bosib i adeiladu'r capel newydd. Ym mis Mehefin bu i Bwyllgor yr Ysgol Sul benderfynu sut i drefnu'r dysgwyr yn eu dosbarthiadau yn y lleoliad newydd ac enwi'r athrawon, dynion a merched. Agorwyd yr Ysgoldy ar Awst 17 1879 a'r capel ym mis Mai 1880 gan y Parchedig Ddr Thomas o Lerpwl.

Mewn erthygl i bapur newydd Saesneg cafwyd yr esboniad dilynol:

*'The Welsh Presbyterian Chapel, Schools and House Pendleton (in the Borough of Salford) This chapel which is the only place of Worship where the services are conducted in Welsh in the Borough has been erected to meet the requirements of the Welsh portion of the population which now numbers from three to four thousand most of whom are domestic servants and working men employed in the various collieries, iron works, mills, breweries etc and as joiners, masons and labourers in other establishments in the neighbourhood, whose earnings on the average are only sufficient to meet their necessary expenditure. The old chapel in St Stephen's Street, owing to the state of the building and the altered condition of its surroundings, had become quite unsuitable for the furtherance of religious work amongst those who were expected to attend'*

Mae'r erthygl yn parhau trwy egluro pam oedd y blaenoriaid wedi penderfynu bod capel newydd yn angenrheidiol a'r gobaith y byddent yn llwyddo casglu arian y ddyled yn y dyfodol:

*'believing that an appeal to the employers of labour in the Borough to families who desire to retain the services of the better educated Welsh Domestic Servants, as well as those ladies and gentlemen who at all times give their support to the*



Ysgol Sabbothol y Methodistiaid Calvinaidd,

BROAD STREET, PENDLETON.

Tea Party Blynyddol,

CHWEFROR 10, 1883.

CADEIRYDD . . . . PARCH. THOMAS GRAY.

ARWEINYDD: MR. RICHARD EDWARDS.

CYMDEITHEANYDD: MR. E. WYNNE HUMPHREYS.

PROGRAMME.

1. ANTHEM............ "O Deuwch i'r Dyfroedd." ..........*Eos Llechid.*

"O deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno, ie, yr hwn nid oes arian ganddo, deuwch, prynwch, a bwyttêwch. Ie, Deuwch, prynwch win a llaeth heb arian ac heb werth."

2. ANERCHIAD.... .... .... .... .... .... .... Y LLYWYDD.

3. SONG..................."Drink of Water."..............GAN Y PLANT.

Oft I've heard a temp'rance lay,
Sweetly say, sweetly say,
Drink of water pure and bright,
Sip of me each day;
Mine 's a clear and limpid stream,
Love and light, shine in my gleam,
More than drunkards e'er can dream,
Drink of me, of me.

Thou art weak, so are we all,
Drink of me, drink of me;
Shun strong drink, thou ne'er shall fall,
Drink of me, of me.

Every child needs constant care,
Many cruel taunts must bear,
Strong drink 's such a crafty snare.
Always drink of me.

Art thou weary? Wouldst thou rest?
Drink of me, drink of me;
Man is oft by sin oppressed,
Keep to me, to me.
Health and strength I ever gave,
Strong drink makes the drinker rave,
I am ever strong to save,
Always drink of me.

*furtherance of the Christian work would enable them to clear off the debt on the building and carry out en efficient ministration amongst this portion of the population and support a resident minister. ( debt £4.026)*

Mae'n amlwg fod y blaenoriaid wedi teimlo'r angen i gyfiawnhau eu hunain ac yn eu hadroddiad i 1880 gwelwn: 'Dywed rhai ei fod yn rhy fawr a chostus i ychydig Gymry tlodion ryfygu meddwl amdano. Ein ffydd ni yw gan ei fod wedi ei lenwi â Chymry fwy nag unwaith y llenwir ef eto. A chyda golwg ar ei wychder, mae dosbarth y cwynwyr yn anghofio mai Tŷ i Dduw ydyw, ac nid i ni; ond ein bod yn gobeithio y bydd yn borth y nefoedd i ninnau. Nid ydym yn meddwl y gall tŷ i Dduw fod y rhy ardderchog.' Gwelwn wedyn adroddiad o waith y Dorcas (cymdeithas y chwiorydd): 'Ni rhaid i wragedd fynd i Cassia neu Llydaw,' meddai'r adroddiad gan sôn am y genhadaeth 'mae ein cydgenedl yn eu hymyl mewn cymaint angen am gymhorth â neb, ie, yn boddi yn ymyl yr arch.' Hollol ddifaterwch yw'r gelyn mwyaf hyd yn oed yn 1880! Ond mae'r llythyr yn terfynu gyda'r geiriau bendigedig: 'Yr ydym yn cytuno â'n gilydd i ddiolch i Dduw am y cariad a'r undeb sydd yn yr eglwys, heb neb yn tynnu yn groes, a'n bod ninnau eich gwasanaethwyr fel brodyr, yn trigo ynghyd mewn perffaith frawdgarwch...'

Fel ym mhob capel, yr oedd angen ymdrechion i ddifyrru'r Cymry ac ennill arian at y costau, ac roedd y rhain yn Pendleton yn cynnwys 'Tea Party Blynyddol' Erbyn 1884 roedd gan y capel, o dan y gweinidog y Parch Thomas Gray (ers 1876) 183 o ysgolheigion yn yr Ysgol Sul ac 20 o athrawon Ysgol Sul. Yna yn1885 gwelwn fod y ddyled yn dal i boeni'r pwyllgor er bod ymdrech fawr wedi ei gwneud: *' for we have been able to accomplish these things during the past 8 years of unprecedented depression of trade, what may we expect to do in times of greater prosperity.... The Ship canal will bring thousands of men and millions of money into our midst... We then trust to see our chapel filled with a devoted and unburdened people..'*. Yn anffodus nid oedd hynny yn mynd i ddigwydd er gwaethaf disgwyliadau diffuant y pwyllgor a chrynhowyd ei gobeithion yng ngeiriau Williams Pantycelyn ar ddiwedd yr adroddiad: 'Mae'r hyfryd wawr sy'n codi draw yn dweud fod boreu braf gerllaw'.

Er hynny, fe fu blynyddoedd o waith da yn y capel yn Broad Street Pendleton ac mae Trip Ysgol Sul yn cael sôn arbennig a gofal yr Arolygwr James Hughes. Er nad oedd James yn gallu mynd ar y trip roedd yn gofalu 'fod yn gyntaf wrth y canal ac yn ddiweddarach wrth y station i arolygu y cyfan ac i weld bod pawb wedi cychwyn yn ddiogel.' Nid hwn oedd yr unig un oedd wedi gwneud ei orau glas dros y capel, rwy'n siwr, am fod gwir gariad at yr Achos yn eu mamiaith yng nghalonnau llawer o bobl ac yn 1890 daeth amser i ffarwelio â'r gweinidog ar ôl ei weinidogaeth o 14 o flynyddoedd yn Pendleton a Heywood Street. Un oedd wedi eu harwain trwy y newid mawr o gael capel newydd a symud yno. Roedd wedi cael galwad i Penbedw. Rhoddodd pawb deyrnged uchel iddo a Mr John Edwards, Pendelton yn gorffen ei deyrnged gan ddweud 'Roedd Mr Gray yn boblogaidd iawn yn Pendleton nid ydym wedi blino arno, ac â oddi yma a'i goron ar ei ben, fel y daeth yma'. Ar gofrestr y capeli i'r enwad roedd gan Henaduriaeth Manchester 15 o gapeli.

Pan ddaeth y ganrif newydd, roedd 174 o aelodau yng nghapel Pendleton, nifer y plant oedd 75 a brwdfrydedd amlwg yn y gwaith. Yn y Gymdeithas Lenyddol ar Tachwedd 27 ym 1900 darllenwn: '*This meeting was the first of its kind held this session being a lantern lecture by R. J. Davies. The subject was Japan – a very interesting subject in as much as the Japanese are....fast becoming one of the most advanced nations of our present civilistaion.'* Yn eu hadroddiad, gwelwn y blaenoriaid yn ysgrifennu: 'mae llawer o waith wedi ei wneud yn yr Ysgol Sabbothol a'r Band of Hope yn dra llwyddiannus. Y mae Cymdeithas Christian Endeavour yn cyfarfod bob prynhawn Sabboth ar ôl yr Ysgol Sabbothol. Mae y Gymdeithas Lenyddol a'r Cyfarfod canu yn arddangos arwyddion fod yma ddigon o ddefnyddiau, yn feibion a merched i gario yr achos ymlaen yn llwyddiannus. Yr ydym yn dra-hyderus y trefnir dosbarthiadau i gario hynny allan. A dyna ddyfynnu un gweinidog nodedig am ddweud: *'let us rise to our opportunities...Satan's method is temptation. 'God's method is opportunity......How many opportunities of serving God and our fellowmen have we missed?....God calls for our activity, be it ever so secular in appearance, and the serving of his kingdom'*. Her i bawb yn y gorffennol a'r presenno! Roedd 17 o gapeli wedi eu cofrestru yn yr Henaduriaeth yn 1906 ac yn 1907 daeth y Parch Robert Williams yn weinidog ar Gapel Broad Street, Pendleton.




Ysgrifennodd y Parch Robert Williams yn ei lythyr i'r Adroddiad ar ôl ei flwyddyn cyntaf: 'Wele bennod arall wedi ei hysgrifennu yn Llyfr Actau Eglwys Iesu Grist yn Pendleton, pennod a ddengys fod Pen yr eglwys yn trigo yn ein plith. Yr oedd rhif yr Eglwys ddiwedd y flwyddyn yn 198, dau gant namyn dau o eneidiau yn proffesu bod yn oleuni y byd ac yn halen y ddaear'. Cafodd y Parch Robert Williams yrfa hir a llwyddiannus yn gweithio ym Manceinion gyda chyfnod fel caplan yn ystod y Rhyfel Fawr. Ond cyn y rhyfel, fe roedd pob math o arbrofion gyda'r tim pel droed ymysg y rhain, a gweithgareddau llawn ddychymyg fel Bazaars. Ond cawn barhad rhyw dro arall.

*(i'w barhau)*

# CYFARFOD SEFYDLU

## Y PARCHEDIG ROBERT PARRY

**i ofalaeth y Gororau (Bethel a Bethania, Lerpwl, Altrinchan, Noddfa, Didsbury a Seion Penbedw)**

***ar bnawn Sadwrn, Medi 18***

***am 1.30 o'r gloch***

***yng Nhapel Seion, Laird Street, Penbedw***


Llywydd: Marian Lloyd Jones
o Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain
a chyflwynir y siars gan y
Parch R. W. Jones, Wrecsam.
Croeso i bawb. Bydd te yn dilyn yr oedfa

# Cyfarfod Cyflwyno'r Gyfrol The Welsh in Liverpool: A Remarkable Story

***ar Nos Lun, Hydref 11, 2021***

***am 7.30***

***yn adeiladau Bethel, Heathfield Road/ Auckland Road, Lerpwl 15***




Llywydd:
Parch Robert Parry.

Disgwylir i bob un a gyfrannodd i'r gyfrol gasglu hi y noson honno, a bydd copïau clawr meddal (£19.99) ar werth

# CORNEL Y TRYSORYDD

## HYDREF 2021

| | |
|---|---|
| Mr a Mrs Huw Davies, Rhuthun | £25.00 |
| Parch Aled Lewis Evans, Wrecsam | £20.00 |
| Mr a Mrs Eurfryn Davies, Llandegfan | £40.00 |
| Mrs Gwenllian Rowlinson, Llanfair Pwll | £31.00 |
| Dr Rhodri Smith (dim Cyfeiriad) | £11.00 |
| Mr Gwynn a Basra Evans, Llundain | £30.00 |
| Mrs Elizabeth Owen, Halewood | £20.00 |
| Mrs Eirwen Sergent, Penbedw | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£202.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# Archebwch gopi clawr caled i'r hosan Nadolig

